Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Lowri Vaughan (Saron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr Glyn Roberts. Gweddïwn y byddant yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl.

Mae sawl un o'n haelodau heb fod yn dda ac anfonwn ein cofion at bob un ohonynt. Cofiwn yn arbennig am Doreen Evans (Llansannan) a Joyce Lloyd (Llanfair) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu Peter Jones (Groes) yno am rai dyddiau hefyd, ond erbyn hyn mae'n cael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Meurig Owen (Cefn Meiriadog). Parhawn i gofio hefyd am Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n cael gofal yng Nghanolfan Walton. Treuliodd Tudor A. Williams (Llansannan) noson yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd ond mae'n dda cael adrodd ei fod adref ac yn gwella erbyn hyn. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Megan Jones (Nantglyn) ar ddathlu penblwydd arbennig. Diolchwn i Dduw amdani, ac am ei ffyddlondeb a'i gwasanaeth wrth yr organ yng Nghapel Y Waen am dros 60 o flynyddoedd!

Llongyfarchiadau hefyd i Gari ac Alaw Evans (Saron) ar enedigaeth Jini Mai, chwaer fach i Jacob ac Anni. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Cyrsiau Coleg y Bala

Dyma'r cyrsiau sydd wedi eu trefnu yng Ngholeg y Bala dros y misoedd nesaf:

- Diwrnod Blasu (i blant 7-11 oed): Mehefin 10fed
- Disglair (i ferched o bob oed): Mehefin 23ain – 24ain
- CWRS Ieuenctid (i flynyddoedd uwchradd 7-10): Gorffennaf 31ain – Awst 4ydd
- Anhrefn Awst (i blant 8-11 oed): Awst 14eg – 17eg
- Souled Out (i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion): Awst 19eg –24ain

Medrwch archebu lle ar gyfer y cyrsiau uchod ar y wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu trwy ffonio 01678 520565. Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, plîs cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 iddyn nhw bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth hon.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4 Mehefin 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Pen-blwydd Hapus!

Pysgotwr cyffredin oedd Pedr, gŵr medrus am hwylio cychod, trwsio rhwydau a dal pysgod. Nid oedd arwyddion ei fod yn ŵr cyhoeddus, ond dan ddylanwad Ysbryd Duw ar ddydd y Pentecost, fel y gwelwn yn Actau 2, cododd yng nghanol Jerwsalem a rhoi neges rymus i dyrfa fawr. Dyma'r ddinas oedd yn llawn o wrthwynebwyr i Iesu Grist. Heriodd Pedr y rhai alwodd am groeshoelio Iesu i edrych eto ar eu gweithred gan ei fod o'n sefyll fel tyst i'r ffaith fod yr Iesu a groeshoeliwyd yn fyw. Eglurodd fod gwrthod Iesu yn gyfystyr â gwrthod Duw ei hun. Canlyniad ei safiad oedd bod tair mil o bobl wedi newid eu meddwl a throi i ddilyn Iesu. Dyma pryd y dechreuodd yr eglwys Gristnogol dyfu. Mae'r eglwys Gristnogol wedi dal i dyfu ar hyd y canrifoedd ar waethaf pob erledigaeth. Os yw'r twf yn araf yng Nghymru mae gwledydd eraill yn y byd, megis China, lle mae twf mawr yn nifer dilynwyr Iesu.

Daeth Ysbryd Duw i feddiannu ac arwain bywyd y dilynwyr cyntaf a phob crediniwr wedi hynny. Y Pentecost yw dydd pen-blwydd yr eglwys, dydd dathlu ei geni a dathlu hefyd fod Duw a Iesu Grist gyda ni, mewn ffurf arall anweledig ond effeithiol a grymus. Ni ellir dwyn yr Ysbryd Glân oddi ar y credinwyr. Heddiw, cofiwn neges Pedr sy'n ein herio ni i edrych eto ar Iesu Grist. Dyma her hefyd i ninnau rannu'r neges gydag eraill er i ni deimlo nad oes diddordeb ganddynt neu eu bod yn wrthwynebus i'r ffydd hyd yn oed. Arglwydd sy'n rhoi cyfle i un edifarhau a chredu sydd gennym, un sy'n barod i weini trugaredd a gras. Dyma ei addewid i'w ddilynwyr "Efe (*sef y Tad*) a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi am byth. Ni all y byd ei dderbyn am nad yw y byd yn ei weld nac yn ei adnabod ef. Yr ydych chwi yn ei adnabod oherwydd gyda chwi y mae yn aros." Ioan 14:16-17. Dyhead pob Cristion yw bod eraill yn dod i brofi presenoldeb yr Ysbryd Glân yn eu bywyd, yn eu trawsnewid gan eu cymell a'u harwain i fyw mewn tangnefedd gyda Duw a gyda'i gilydd. Daeth hyn yn brofiad i'r credinwyr cynnar oherwydd "Roedden nhw'n cyfarfod yno'n gyson i weddïo gyda'i gilydd, gyda Mair mam Iesu, a'i frodyr, a nifer o wragedd." Actau 1:14.

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mehefin 4ydd

- **Cyfarfod Gweddi Arbennig yn Llansannan a Llanfair** am 10:00 y bore, ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 y bore i weddïo am arweiniad Duw wrth i'r Ofalaeth geisio'i ewyllys o ran gweinidogaeth Eglwysi Bro Aled.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 y bore ac **yn Llannefydd** am 11:00 y bore o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr gydag Alun Jones yn arwain a'r Parch. Alun Morton Thomas yn pregethu.

Dydd Llun, Mehefin 5ed

- **Pwyllgor Bugeiliol** (i flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, ynghyd â'r aelod sydd wedi ei ddewis i gynrychioli pob eglwys) yn Llansannan am 7:30 yr hwyr.

Dydd Mawrth, Mehefin 6ed

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 1:30 y prynhawn.
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yn Festri Llansannan am 7:00 yr hwyr gydag anerchiad gan Y Parch. Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Mehefin 11eg

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 y bore ac **yn Llansannan** am 11:00 y bore o dan arweiniad Mr Steffan Job. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan ac Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2:00 y prynhawn.
- **Oedfa (i'w threfnu) yn Groes** am 9:30 y bore ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 y bore. Bydd Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:30 y bore.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 y bore ac **yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad Mr Gerallt Jones.
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yng Nghapel Undebol Llandegla am 2:30 y prynhawn. Arweinydd: Dafydd Watson. Croeso i bawb.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras (07778 511672).

Dydd Llun, Mehefin 12fed

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM** am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Y tro hwn, 'Y Wir Winwydden a'r Gwinllannwr' fydd y testun. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. *(Manylion mewngofnodi: https://us02web.zoom.us/j/82697406470?pwd=aThkKohEUlFKTXFoMU8zL0ozV1FDZz09 neu cysylltwch â Mair os byddwch am ymuno dros y ffôn. Meeting ID: 826 9740 6470, Passcode: 901953).*

Dydd Mawrth, Mehefin 13eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sul, Mehefin 18fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 y bore ac **yn Llanfair** am 11:00 y bore o dan arweiniad Mr Arfon Jones. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa yn Llansannan i gynnal pleidlais ddirgel, y tro hwn er mwyn enwebu blaenoriaid. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 y bore ac **yn Henllan** am 11:00 y bore o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa yn Henllan i gynnal pleidlais ddirgel, y tro hwn er mwyn enwebu blaenoriaid.
- Ni fydd oedfa yn **Saron a Nantglyn** heddiw. *(Gweler isod.)*
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Rhys Dafis yn arwain a Mr Arfon Jones yn pregethu.

Newid trefniadau (Saron a Nantglyn)

- Fe fydd oedfa o dan arweiniad Mr Arawn Glyn yn cael ei chynnal dydd Sul, Mehefin 25ain yn Saron am 10:00 y bore ac yn Nantglyn am 2:00 y prynhawn.

Enwebiadau Medal Gee

Cofiwch bod angen i bob ffurflen gais am Fedal Gee fod mewn llaw erbyn Mehefin 30ain. Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan www.ysgolsul.com. Gallwch glicio ar Ffurflen Gais Medalau Gee i lawrlwytho ffurflen enwebu, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Aled Davies: aled@ysgolsul.com.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (14eg), os gwelwch yn dda.